Comisiwn Coedwigaeth
Ardal Goedwig Coed y Mynydd
Gwydyr Uchaf
Llanrwst
Conwy
LL26 OPN

AT: John Ratcliffe Paul Whalley
Gwyn Jones Dave Cowley
Will Sandison David Hewett
Dave Rees Enid Mummery
Peter Charlton Simon Hunt
Christian Branch Neil Johnstone
Hugh Knott Kim Burnham
Robert Williams

Cc: Alun Morgan Owen
Myra Evans – clerc Cyngor Cymuned Rhosyr

CYFARFOD PANEL AMGYLCHEDDOL NIWBWRCH
Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd Ddydd Iau 17 Mawrth 2005
yn Sefydliad Pritchard Jones, NIWBWRCH

Ymddiheuriadau - Wil Sandison, John Ratcliffe, Simon Hunt.

Pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol (28 Hydref, 2004)

DEFNYDDIAU ARCHIF
Dywedodd M.Gould wrth y cyfarfod nad oedd wedi cael y Cryno Ddisgiau hyd yn hyn ac y byddai'n dilyn hynny i fyny ac yn hysbysu'r panel yn y cyfarfod nesaf.

Gweithredu: - MG

LÔN LÂS CEFNI

Mae'n dal yn aneglur pwy sydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhan o Lôn Lâs Cefni trwy'r goedwig, ac mae H. Knott yn ceisio cael eglurhad o hyn trwy gysylltu ag Adran Briffyrdd y Cyngor Sir.

Gweithredu: - H.K

PROSIECT BIO-TANWYDD

Gohiriwyd tan y cyfarfod nesaf S.H.

RHEOLWR RHAWD CYMUNEDOL

Bellach mae 2 reolwr rhawd cymunedol ac mae Robert Williams o'r Comisiwn Coedwigaeth wedi bod mewn cysylltiad ag un o'r ddau swyddog, a byddant yn cadw mewn cysylltiad dros amrywiaeth o destunau yn ymwneud â'r ardal.

Cwblhawyd.

MARCHOGAETH YNG NGHOEDWIG NIWBWRCH

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r ffaith bod y maes parcio'n llawn dros y penwythnos ac awgrymwyd y dylai'r Comisiwn Coedwigaeth fod â mwy o bresenoldeb adeg hynny. Dywedodd RW wrth y cyfarfod bod y Comisiwn Coedwigaeth yn ysytyried creu nifer o fannau parcio neilltuol ar gyfer cerbydau ceffylau ond dywedwyd na fyddai hyn yn datrys y broblem. Mae maes parcio ar ochr arall yffordd a gellid ei ddefnyddio ar gyfer ceir ar y penwythnos gan ei bod yn beryglus i geffylau groesi'r ffordd, a byddai rhaid i'r cynllun hwn fynd gerbron y bartneriaeth gyd-gysylltu. RW i ddiweddaru yn y cyfarfod nesaf.

Gweithredu:- RW

AROLWG MADFALL Y TWYNI

Ni chwblhawyd yr adroddiad hyd yn hyn, a chynhelir arolwg bellach eleni. Gofynnwyd i D.Cowley gysylltu â Dolgellau am drwyddeb.

Gweithredu:- DC

COFNODION I GYNGOR CYMUNED RHOSYR

Cytunwyd i anfon cofnodion y cyfarfod blaenorol i Gyngor Cymuned Rhosyr , ac i barhau â'r drefn honno.

Cwblhawyd.

CAU FFORDD Y TRAETH

Caewyd ffordd y traeth ar 5 Tachwedd er mwyn ail-osod y ddau dwmpath cyflymdra a chwblhawyd y gwaith yn unol â'r amserlen.

Cwblhawyd

A G E N D A

Diweddariad Grŵp Cydgysylltu Ail-Ddylunio Coedwig Niwbwrch

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Cyd-gysylltu yn Sefydliad Prichard Jones ar 3 Mawrth Aelodau'r grŵp oedd y rhai oedd wedi ymateb i'r gwahoddiad a anfonwyd allan gyda'r adroddiad ar yr ymgynghoriad cyhoeddus yn 2004. Dywedwyd nad oedd cyfyngiad amser ar y broses, ac y gallai hyn effeithio ar ierchyd a diogelwch yn y coetir. Dywedodd RW wrth y panel bod y Comisiwn Coedwigaeth yn parhau i ddefnyddio'r hen gynllun dylunio nes y byddai un newydd wedi'i sefydlu. Amcan terfynol y Grŵp yw dod o hyd i gynllun dylunio coedwig y bydd yn bosibl ei ddiwygio a'i newid fel ag y bydd yr angen yn codi. Cynhelir cyfarfod arall ar gyfer 7 Ebrill yn yr ysgol leol. RW i ddiweddaru'r panel yn y cyfarfod nesaf

Gweithredu: - RW

Diweddariad ar Brosiect Llys Rhosyr

Mae'r adroddiad heb ei gwblhau gan y bu'r ymgynghorydd i ffwrdd a bydd N.J. yn hysbysu'r panel yn y cyfarfod nesaf.

Gweithredu N.J.

AIL-SEFYDLU'R WIWER GOCH YNG NGHOEDWIG NIWBWRCH

Oddi ar ryddhau'r gwiwerod, mae rhai o'r benywod wedi esgor ar rai ifanc, rhai mewn corlannau, rhai mewn blychau, sydd yn galonogol ar gyfer y dyfodol. Gofynnodd y Comisiwn Coedwigaeth am fap o leoliad y blychau hyn.

Gweithredu H.K.

Beiciau modur yn y goedwig

Dywedodd R.W. wrth y cyfarfod ei fod wdi cael nifer o gwynion ynglŷn â beiciau modur yn y coetir ac ar y traeth. Dywedodd y rheolwr rhawd cymunedol eu bod yn adnabod rhai o'r troseddwyr a'u bod yn edrych i mewn i'r broblem. Mae ganddynt yr hawl i roi rhybudd, ac os na weithredir yn unol â'r rhybudd, i gymryd y beiciau'n atafaeliad. Maent hefyd yn archwilio posibiliadau am le arall i'r beiciau fynd lle na fyddent yn berygl, ac os gellid adnabod y beicwyr yn y coetir, byddent yn mynd i siarad â nhw.

Gweithredu: - R.W.

Unrhyw fater arall

Dim materion eraill

Dyddiad y cyfarfod nesaf

13 Hydref 2005 10.00 y bore yn Sefydliad Pritchard Jones.